

**Cyfarfod Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac
Agor yr ymchwiliad i Amseroedd Aros Cancer**

Cofnodion

26 Chwefror 2020, 12.30-1.30pm

Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel

Agenda

1. Ymddiheuriadau 12.30
 - a. Rhun ap Iorwerth AC
 - b. Angela Burns AC
 - c. Andrew RT Davies AC
 - d. Kirsty Williams AC
 - e. Llyr Gruffydd AC
2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 12.30 - 12.40
 - a. Ethol Cadeirydd
 - b. Ethol Ysgrifennydd
 - c. Cytuno ar yr Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol
3. Agor Ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol i amseroedd aros cancer 12.40-1.20
 - a. Cytuno ar y cylch gorchwyl
 - b. Cytuno ar gwestiynau'r ymgynghoriad
 - c. Cyflwyniad gan Andy Glyde, Ymchwil Cancer ar y Llwybr Cancer Sengl
4. Unrhyw Fater Arall 1.20-1.30

Yn bresennol

- Gwyneth Sweatman, Marie Curie
- Gemma Roberts, CRUK
- Dr Sunil Dolwani
- Angie Contestabile - British Liver Trust
- Greg Pycroft, Breast Cancer Now
- David Rees AC (Cadeirydd)
- Rhodri Ab Owen, Positif Politics
- Richard Pugh – Macmillan
- Lee Campbell - Ymchwil Cancer Cymru
- Emily Waller – Pancreatic Cancer UK
- Gareth Popham – Rhwydwaith Cancer Cymru
- Tom Davies - Macmillan
- Catrin Edwards – Hospice UK
- Andy Glyde - CRUK
- Angela Burns AC

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- Cafodd David Rees AC ei ailethol yn gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.
- Etholwyd Gemma Roberts yn Ysgrifennyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol
- Cytunwyd ar y Datganiad Blynyddol a'r Adroddiad Ariannol

Ymchwiliad i amseroedd aros cancer

- Cyflwynodd David Rees gylch gorchwyl arfaethedig yr ymchwiliad ac agorodd y drafodaeth i gael sylwadau
- Cytunwyd ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad gyda rhai mân newidiadau, fel y nodir yn Atodiad A

Cyflwyniad

- Rhoddodd Andy Glyde, Cancer Research UK, gyflwyniad byr yn cynnig trosolwg o'r Llwybr Canser Sengl

Atodiad A – Trosolwg o'r ymchwiliad

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i drawsnewid y ffordd y caiff cleifion cancer yng Nghymru eu hatgyfeirio i gael diagnosis a thriniaeth - y Llwybr Canser Sengl (SCP). Cafodd y Llwybr ei roi ar waith ym mis Mehefin 2019, gan ddisodli'r hen system amseroedd aros cancer dwy haen gyda metrig newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob claf ddechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod i'r pwynt o amheuaeth o ganser.

Mae'r Llwybr yn dal pob claf cancer drwy ei ddiagnosis am y tro cyntaf, gan roi darlun mwy cywir o brofiad cleifion a'r pwysau ar y system ddiagnostig. Prif ddiben y Llwybr yw sbarduno diagnosis cynharach yng Nghymru a gwella canlyniadau i gleifion cancer.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod 72.5 y cant o gleifion wedi dechrau triniaeth ym mis Tachwedd 2019 o fewn 62 diwrnod i amheuaeth o ganser.

Gyda'r Llwybr bellach yn cael ei weithredu ym mhob bwrdd iechyd, mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser wedi nodi tair elfen allweddol o ddiagnosis cancer:

- 1. Gofal sylfaenol:** Meddygon teulu sy'n penderfynu a ddylid atgyfeirio rhywun i gael profion diagnostig pellach. Gall atgyfeiriad amserol helpu i osgoi oedi dilynol mewn diagnosis.
- 2. Gwasanaethau diagnosteg:** Mae amrywiaeth o wahanol weithwyr meddygol proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cynnal profion diagnostig, yn adrodd ar ganlyniadau ac yn cadarnhau diagnosis, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer a chyfleusterau i wneud hynny.
- 3. Llwybrau:** Mae'r Llwybr at ddiagnosis yn amrywio o glaf i glaf. Fodd bynnag, mae mae'r llwybrau cenedlaethol gorau newydd wedi'u cyflwyno drwy'r Llwybr Canser Sengl i sefydlu llwybrau generig a safle-benodol cyson i fyrddau iechyd i weithio tuag atynt.

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

- Gwahodd pob sector sy'n gwneud diagnosis o ganser a chymryd tystiolaeth ganddynt ac adolygu eu dyheadau ar gyfer dyfodol gofal cancer yng Nghymru, gan gynnwys: arweinwyr clinigol; elusennau; gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; cyrff cyflenwi a chleifion;
- Deall profiad cleifion o'r Llwybr Canser Sengl;
- Deall sut y gall y Llwybr Canser Sengl wella amseroedd aros cancer a chanlyniadau cancer i bobl yng Nghymru;

- A gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y dystiolaeth hon.

Cwestiynau

Amseroedd aros hyd yn hyn - Hyd yma mae amseroedd aros o dan y Llwybr Canser Sengl wedi bod yn sefydlog – heb unrhyw newidiadau ystadegol arwyddocaol. Dangosodd y canlyniadau diweddaraf o fis Tachwedd 2019 fod 72.5 y cant o gleifion wedi cael diagnosis a'u trin o fewn y targed o 62 diwrnod.

1. Beth yw eich asesiad o ganlyniadau'r amseroedd aros o dan y Llwybr Canser Sengl hyd yma?

Ymwybyddiaeth y cyhoedd (cyfnod y claf)

2. Beth yw'r un cam pwysicaf y dylid ei gymryd i wella ymwybyddiaeth y boblogaeth o symptomau cancer ar draws pob grŵp economaidd-gymdeithasol i leihau anghydraddoldebau iechyd?

Gofal sylfaenol - Mae canllawiau NG12 NICE ar gyfer amheuaeth o ganser yn amlinellu y dylai meddyg teulu gyfeirio'i glaf am brofion diagnostig pellach os oes 3 y cant o siawns bod gan y claf ganser a nodi'r camau y dylai meddygon teulu eu cymryd yn dibynnu ar y claf sy'n dod ato.

3. A ydych yn credu bod canllawiau atgyfeirio NG12 yn cael eu cymhwysu'n unffurf ledled Cymru?
4. Yn eich barn chi, beth yw'r her fwyaf i weithredu NG12 yn unffurf?
5. Sut y gellid cefnogi meddygon teulu i weithredu NG12?
6. Beth fyddai effaith gweithredu NG12 yn unffurf?

Capasiti diagnostig. Mae capasiti diagnostig yn cynnwys y gweithlu diagnostig yn ogystal ag unrhyw offer sydd eu hangen ar gyfer cleifion diagnosis, ac mae'n hanfodol ar gyfer diagnosis o ganser yn amserol ac yn gynnar.

7. Pa heriau sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran capasiti diagnostig?
8. Beth yw'r heriau yn y dyfodol o ran diagnosis o ganser yn gynnar?
9. Pa gyfleoedd sy'n bodoli i wella diagnosis o ganser yn gynnar ac yn amserol?
10. O ystyried y cynlluniau peilot sy'n gweithredu ar hyn o bryd ym Mae Abertawe a Chwm Taf, pa rôl ydych chi'n ei rhagweld ar gyfer Canolfannau Diagnosis Cyflym o ran dyfodol diagnosis o ganser yng Nghymru?

Triniaeth

11. Beth mae Byrddau Iechyd Lleol yn ei wneud ar hyn o bryd, a beth sydd angen iddynt ei wneud yn y dyfodol, yn dilyn diagnosis a phenderfyniad i drin i sicrhau y gall cleifion ddechrau triniaeth cyn gynted â phosibl?

Llwybrau Cenedlaethol Gorau. Llwybrau ar gyfer gwahanol safleoedd cancer yw Llwybrau Cenedlaethol Gorau sy'n amlinellu'r arfer gorau ar gyfer pob safle cancer. Mae'r rhain yn cael eu datblygu a'u cyflwyno ar hyn o bryd i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol i weithredu'r Llwybr Canser Sengl.

12. Pa effaith a gaiff y llwybrau cenedlaethol gorau yn eich barn chi?

Profiad y claf

13. Pa effaith y mae'r Llwybr Canser Sengl wedi'i chael ar brofiad cleifion?
14. Pa effaith y dylai'r Llwybr Canser Sengl ei chael ar brofiad a sut rydych chi'n rhagweld y bydd hyn yn cael ei gyflawni?

Data & gwybodeg

15. Beth yw cyfyngiadau'r data a gesglir ar hyn o bryd o dan y Llwybr Canser Sengl?
16. Beth yw'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan y Llwybr Canser Sengl wrth gasglu data?

Sylwadau i gloi

17. A oes gennych unrhyw sylwadau terfynol am y Llwybr Canser Sengl?